Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 194
Ymateb gan: Mudiad Meithrin

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 194
Response from: Mudiad Meithrin

**Ymgynghoriad ar effaith COVID 19 ar blant a phobl ifanc**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar effaith COVID 19 ar blant a phobl ifanc ar ran Mudiad Meithrin sef arbenigwyr y blynyddoedd cynnar sy'n darparu a hwyluso gofal plant, addysg gynnar a llu o raglenni perthnasol i blant ac oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth lunio'n hymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae Mudiad Meithrin wedi ymgynghori gyda'i staff, staff y Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd, aelodau pwyllgorau Cylchoedd Meithrin a rhieni a gofalwyr. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys mewn dyfynodau.

Cyflwynwn ein sylwadau fesul thema, fel y'u hamlygwyd yn yr ymatebion dderbyniom (gan nodi nad ydyn o reidrwydd yn cynrychioli teimladau pob un o'n rhanddeiliaid):

**Iechyd a Lles meddyliol ac emosiynol y teulu**

Mae'r her economaidd yn rhoi pwyslais cynyddol ar gynhaliaeth gwasanaethau iechyd meddyliol ac iechyd ariannol teuluoedd ac mae gwir berygl i blant gael eu dal yn y canol a cholli hawl ymarferol i chwarae a hawl ymarferol i gael addysg (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau Plant). Mae'r cyfnod clo wedi amlygu mor niweidiol yw mynd heb yr holl rwydweithiau cefnogi arferol (o gymorth Nain neu Dad-cu, i wasanaeth 'Dechrau'n Deg', i Gylch Meithrin ac ysgol ayyb). .. Mae hefyd gwir beryg i blant lithro o dan y rhwyd o ran materion diogelu pan nad ydynt yn mynychu darpariaeth ddyddiol.

"Mae'r plant wedi mwynhau'r cyfnod o gael chwarae ond yn gweld colli cyfoedion ac ysgol (rydym yn hynod ffodus o fyw ar ffarm a chael digonedd o le)"

"Sut bynnag y derbyniodd y newyddion y bydd Ysgolion a Cylchoedd yn ailagor diwedd y mis, mae wedi achosi pryder ac iselder difrifol yn ein cartref"

"Rwy'n cyfaddef imi golli llawer o gwsg gyda'r meddwl a'r euogrwydd o fynd yn ôl fel arweinydd yn y Cylch a dod â'r firws yn ôl i'r teulu-.......Erbyn hyn, rydw i'n poeni colli fy swydd neu o bosib dod â'r firws adref at fy anwyliaid."

"Fel y gallwch ddychmygu fy mod yn dioddef yn wael o iechyd meddwl erbyn hyn ac rwy'n siŵr nad yr unig un i wneud hynny yn ystod yr amser pryderus hwn".

Medd un rhiant am ei phlentyn: “Roedd yn rhwystredig ar y dechrau oherwydd nad oedd yn deall y sefyllfa ond erbyn hyn mae o wedi derbyn pethau yn weddol ac yn deall bod angen cadw pellter. Mae o wedi colli gweld ei neiniau a'i deidiau, ond wedi derbyn hynny yn weddol ac wedi mwynhau sgyrsiau ffôn/whatsapp, a bellach wedi cael eu gweld nhw o fewn ffiniau ymbellhau cymdeithasol. Ambell i dro mae o wedi dweud ei fod o eisiau chwarae efo plant eraill, ac unwaith fe dorrodd ei galon yn llwyr am y peth. Mae hyn yn ddealladwy oherwydd dydi ei rieni fo ddim wir yn gallu mynd i mewn i esgidiau plentyn 3 oed a chwarae efo fo fel y byddai ei gyfoedion, ond mae plant bach yn byw drws nesaf ac mae o wedi cael sgyrsiau niferus dros y ffens efo nhw, ambell i ras o flaen y tŷ, cyfnewid anrhegion ayb”

**Addysgu o adre**

Mae’r cyfnod digynsail hwn, lle’n gorfodwyd i aros adre wrth ymdrechu i weithio a chynnal addysg ein plant, wedi herio teuluoedd i’r eithaf. Yn ogystal ag amharodrwydd ymysg rhai plant i eistedd a dysgu, mae’r anawsterau ymarferol megis argaeledd offer a meddalwedd gyfrifiadurol, diffyg gofod ac offer addas i weithio, jyglo cyfarfodydd ar zoom neu skype a bod yn “athro” ar yr un adeg, wedi creu euogrwydd a phryder ymysg rieni. Er mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ei dogfen Cadw’n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad polisi parhad dysgu, oedd lles y plentyn, ni chyfathrebwyd hynny’n effeithiol bob amser gan ddarparwyr addysg a bu nifer fawr o rieni o dan bwysau maw. Bu i nifer o rieni ddibynnu ar y teledu neu gyfrifiadur/dabled i ddiddanu eu plant, oherwydd pwysau gan gyflogwyr i gwblhau gwaith.

Mae effaith posib y cyfnod clo ar y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant difreintiedig a’u cyfoedion yn ein gofidio’n arw, a’n pryder ydy mai lledu wnaiff y bwlch hwn. Ymhellach, bydd ail setlo plant i ysgolion ac i leoliadau meithrin, yn her i’r sector addysg ac i’r gwasanaethau cefnogol.

Derbyniodd Mudiad Meithrin ganmoliaeth fawr i’w harlwy weithgareddau amrywiol a blaengar fel Sioe Ddigidol Dewin a Doti, cynllun newydd ‘Clwb Cylch; a sesiynau digidol Cymraeg i Blant, yn ystod y cyfnod hwn. Cyfrannodd yr arlwy at gynnal Y Gymraeg a sefydlogrwydd a threfn ddyddiol i gannoedd o blant bach mewn cartrefi drwy Gymru.

Credwn y dylid defnyddio profiad y cyfnod clo i yrru newidiadau i’r Cyfnod Sylfaen ac i’r Cwricwlwm newydd gan fod rhai o’r cyfyngiadau’n debygol o barhau am gyfnod

“Dwi wedi stryglo i wneud unrhyw addysgu ffurfiol oherwydd pwysau fy swydd (sgen i jest ddim yr amser i roi iddynt)”

“Buaswn wedi hoffi gweld defnydd o ‘Teams’ i gynnig “gwersi” amser go iawn mewn pytiau o hanner awr neu rhywbeth”

“Mae'n bryder nad ydw i yn llwyddo i'w gael o i eistedd yn llonydd imi fedru dysgu dim iddo fo yn ffurfiol (ond dwi'n gobeithio ei fod o'n dysgu gennym wrth goginio, garddio, darllen, chwarae ayb). Mae fy edmygedd tuag at weithwyr gofal plant yn sylweddol felly, eu bod nhw'n llwyddo i ddiddanu llond ystafell o blant a chyfrannu at

eu datblygiad ar yr un pryd, a hynny yn aml am gydnabyddiaeth ariannol bitw mewn cymhariaeth â'u cyfraniad at ddatblygiad y plant. Mae ein mab yn gwylio ychydig bach mwy o deledu na fyddem yn ei ddymuno ond mae'r arlwy sydd wedi bod ar gael gan S4C wedi bod yn dda iawn ac rydym wedi defnyddio adnoddau Ysgol Cyw hefyd. Mae o'n mwynhau Clwb Cylch ac wedi mwynhau dawnsio a chanu adeg Gŵyl Dewin a Doti, felly diolch yn fawr iawn i'r Mudiad am hynny. Mae o wedi gwerthfawrogi'n fawr cael llythyrau (ac anrhegion) yn y post hefyd gan ei deulu."

**Effaith ar blant a theuluoedd bregus a'r rheiny sydd yn byw mewn tlodi**

Nid oes amheuaeth fod y pandemig wedi effeithio'n andwyol ar rai yn fwy nac eraill. Yr ydym yn poeni am effeithiau'r cyfnod clo ar blant bregus, ar blant sydd heb ardd na gofod i chwarae, ar blant (a rhieni) sydd yn dibynnu ar gymorth a chefnogaeth Cylch Meithrin neu ysgol am gynhaliaeth emosiynol ac ar blant ag anghenion Dysgu Ychwanegol.

I deuluoedd oedd yn wynebu heriau amrywiol cyn y pandemig, roedd eu hamgylchiadau yn golygu y byddai'n anos iddyn nhw oresgyn a byw trwy'r cyfnod dan glo a byw gyda chyfyngiadau cymdeithasol.

Soniwyd eisoes am blant yn byw mewn tai heb erddi - hyn yn lleihau eu mynediad i'r awyr agored ac ymarfer corff gan arwain at iselder, rhwystredigaeth a gordewdra ar ei waethaf. Gwyddom fod rhieni sengl, teuluoedd a phlant anabl, teuluoedd o rai grwpiau lleiafrifol ethnig a theuluoedd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fyw mewn tlodi. Pan fo hyn yn cael ei gyplysu gydag effeithiau eraill Covid gwelir cynnydd anghymesur yn y rhwystrau a'r problemau yn eu bywydau pob dydd.

Fel arfer byddai mynediad i rwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant fel cylchoedd meithrin yn ffactor holl bwysig i ddod a chydbwysedd o brofiadau mwy cadarnhaol i'r plant hyn. Trist iawn oedd gweld y drysau hyn yn cau i lawer iawn o blant yn ystod y cyfnod dan glo.

Caewyd rhan helaeth o wasanaethau cymorth gan adael teuluoedd yn dygymod heb unrhyw help.

Ymhellach, bydd diwedd y cyfnod "furlough" a'r diswyddiadau tebygol yn arwain at gynnydd mewn tlodi.

“Fy mhryder yw bod y sefyllfa yma yn ehangu'r gagendor rhwng pobl sydd eisoes yn gymharol gyffyrddus eu byd a phobl a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd.”

**Gweithio o adre/ cyfleoedd i rieni weithio’n hyblyg/ dychwelyd i’r gwaith**

Ochr yn ochr â’r heriau sydd ynghlwm â gweithio o adre, a hynny heb gyfle i gynllunio, mae cyfleoedd i arloesi ac i drawsnewid dulliau gweithio er budd rhieni a phlant. Dangosodd y cyfnod hwn fod cynhyrchedd o adre yn uchel a bod yr hyblygrwydd mewn oriau gwaith y bu i nifer fanteisio arno, i’w groesawu. Rydym yn croesawu’r cyfleoedd i gyflogwyr adolygu eu trefniadau a’u polisïau gwaith yn sgil y pandemig a hyderwn y bydd hyn yn gam cadarnhaol o safbwynt hybu’r gweithlu a chyfleoedd gwaith i ferched yn arbennig.

Wrth reswm, mae lles y gweithlu wrth weithio o adre ac wrth baratoi i ddychwelyd i’r gwaith yn greiddiol ac mae Mudiad Meithrin yn falch o’r gefnogaeth dderbyniodd ein staff yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys sesiynau ar ddelio â newid, gorbryder a gweithio’n effeithiol o adre

“Mae gwaith wedi bod ar ei fwyaf heriol ac mae amodau gweithio wedi bod ar eu mwyaf heriol *ond* dwi wedi mwynhau gweithio o adre a byddaf yn parhau i wneud mwy o hynny pan fydd y normalrwydd newydd yn dychwelyd”

“Dwi hefyd wedi mwynhau gallu arafu lawr a pheidio gorfod rhedeg i bob man!”

“Rydw i'n ymwybodol fy mod yn ffodus iawn oherwydd yn sgil y cloi mawr mae modd imi a'm partner weithio gartref a chyfuno hynny gyda gofalu am ein mab, ac mae ein cyflogwyr yn cydnabod y ffaith bod gennym ofynion gofal ac yn hyblyg yn hynny o beth”

“Yn bersonol mae'r cyfnod hwn wedi caniatáu imi dreulio llawer mwy o amser gyda fy mab na fuaswn wedi cael y cyfle i'w wneud fel arall oherwydd bod rhaid imi a'm partner dreulio amser i ffwrdd o gartref gyda'n gwaith - does dim stres cynllunio amserlen a rhuthro o gwmpas y lle, ac os dwi'n onest dydw i ddim eisiau mynd yn ôl i brysurdeb y cyfnod blaenorol”

“Mae'r mwynhad yr ydw i'n ei gael o dreulio amser efo fy mab yn sgil y cyfyngiadau hyn hefyd yn tanlinellu imi nad ydym fel gwlad yn hybu cyfleoedd i rieni weithio yn ddigon hyblyg i bobl fedru treulio mwy o amser efo'u plant pan fônt yn ifanc, neu yn wir i beidio â gweithio pan fo eu plant yn ifanc heb golli allan ar gyfleoedd gyrfaol ac economaidd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos merched wrth gwrs”

**Byw’n iach**

Nid oes amheuaeth y bu’r cyfnod clo a’r awr o ymarfer corff a ganiatawyd y tu allan yn ddyddiol, yn hwb mawr i iechyd a lles nifer ohonom. Cynhaliwyd sesiynau ymarfer corff ar- lein yn ddyddiol a’r rhain hefyd yn boblogaidd dros ben. Serch hynny, rydym yn bryderus am y plant a’r teuluoedd hynny nad oedd ganddynt fynediad at fannau gwyrdd yn eu cymunedau lleol, y rhai hynny heb erddi i redeg a chwarae ynddynt a heb lwybrau diogel i’w cerdded.

Mae cost bwyd iach yn ffactor allweddol, “ynysoedd bwyd” lle mae costau eitemau ar eu huchaf ond nad oes modd i deuluoedd gyrraedd siopau sy’n cynnig prisiau rhatach, a defnydd o fanciau bwyd ar gynnydd. Rydym yn hynod bryderus am y plant hynny nad oedd modd iddynt yn ystod y cyfnod clo, fanteisio ar y cinio ysgol am ddim yr arferent ei dderbyn.

“Mae ymarfer corff wedi bod yn allweddol i mi o ran lles ac iechyd”

“Mae gennym ardd lle mae digon o le i chwarae ynddo fo ac rydym yn byw mewn ardal lle mae llwybrau cerdded a mannau braf i fynd am dro ynddynt. Dydi hynny ddim yn wir i sawl un dwi'n siŵr ac rydw i'n gwerthfawrogi ein sefyllfa yn fawr “

“Mae'n fy mhoeni ychydig ei fod o'n cael mwy o bethau melys nag arfer hefyd, yn rhannol mae hyn achos ein bod yn coginio mwy nag arfer ond hefyd achos ei bod hi weithiau yn haws osgoi ffrae gan ein bod yn gorfod cydfyw trwy'r amser heb gyfle i ddianc i unlle arall . Gobeithio na fydd yr arferiad hwnnw yn para!”

**Effaith ar fenywod**

Mae ymchwil yn dangos fod Mamau a rhieni sengl wedi gorfod ymdopi gyda sawl her yn ystod y cyfnod clo wrth geisio cydbwyso gofalu ac addysgu plant, gweithio neu wynebu colli swydd, siopa a pharatoi bwyd ynghyd â delio gyda’r her seicolegol a’r ofn a ddaeth yn sgil y pandemig

“Teimlaf bod y cyfnod clo wedi effeithio mwy ar fenywod oherwydd y gofynion o ran gofal dibynyddion a jyglo hynny gyda choginio, cadw tŷ, siopa bwyd, glanhau ayyb (heb sôn am waith)”

**Y Gymraeg**

Yr hyn sy’n gwneud Mudiad Meithrin yn wahanol ac unigryw yw mai darparu a hwyluso gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd yn Gymraeg yw ein priod waith a’n pennaf gymhelliant. Ers 1971, bu Mudiad Meithrin yn dylanwadu, ymlafnio a gweithredu’n ymarferol er mwyn gwireddu ei egwyddorion craidd a sicrhau fod plant bach Cymru yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bawb a’i bod yn gyfrwng i uno’n cenedl amrywiol. Rhaid i ni weithio’n galetach er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn gallu cael profiad Cylch Meithrin ac addysg Gymraeg gan fod rhwystrau anfwriadol ac ymarferol yn parhau i wynebu pobl mewn rhai cymunedau. Mae’r pandemig wedi amlygu llu o rwystredigaethau gyda gwahanol gyfundrefnau, traddodiadau a systemau. Mae wedi amlygu pa mor fregus yw nifer o wasanaethau amrywiol ac nid yw darpariaeth gofal plant yn eithriad. Mae hefyd wedi amlygu beth sydd wir yn bwysig i ni. Gyda hyn, mae mwy fyth o her yn wynebu darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn modd hwylus, hawdd a hygyrch i bobl yn amrywiol gymunedau Cymru

Mae’r Gymraeg - trysor byw sy’n perthyn i ni gyd yn siaradwyr neu beidio - dan fygythiad cynyddol yn sgil y pandemig. Tra bo rhaid dathlu'r cyfraddau uchel o oedolion sydd wedi manteisio ar y cyfle i ddechrau neu ail-afael mewn dysgu’r iaith, rhaid cofio ein bod fel cymdeithas yn dibynnu ar rwydweithiau gofal ac ar ysgolion i roi ail wynt i’n hiaith.

Er pwysigrwydd diymwad trosglwyddo’r iaith o fewn teuluoedd, dibynnwn ar Gylchoedd Meithrin ac ar ysgolion i greu siaradwyr newydd

Mewn partneriaeth â mudiadau eraill megis Mudiad Meithrin, dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn sicrhau bod gofal ac addysg Gymraeg ar gael i bawb beth bynnag ei iaith, hil, gefndir neu anghenion ychwanegol a bod cydraddoldeb o ran mynediad at addysg a gofal Cymraeg.
Dylid dysgu o brofiadau gwledydd eraill o ran buddsoddiad mewn iaith a diwylliant (yn enwedig os ydynt dan fygythiad). Enghraifft o hyn yw gwledydd bach megis Seland Newydd, a gwlad y Basg sydd wedi ymgorffori iaith a diwylliant eu gwledydd yn eu fframwaith ansawdd blynyddoedd Cynnar Cenedlaethol ( ECG) ac felly'n gynnar yn natblygiad ac addysg y plentyn

"Dwi'n poeni am yr effaith ar y Gymraeg. A fydd angen brwydro (eto) am fwy o gyllid ar gyfer yr iaith?"

**Annibyniaeth/datganoli /rhanbarthau**

Rydym yn poeni am effaith polisïau amrywiol gwledydd Prydain ar ein cymunedau bregus a'u hadnoddau prin, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fe'n cythruddwyd fwy nag unwaith na roddwyd ystyriaeth i gyfreithiau a chanllawiau Cymru yn natganiadau COVID San Steffan. Cafodd y dryswch anochel a gododd o ganlyniad, effaith andwyol ar gymunedau, er enghraifft, gwelwyd pobl yn llifo i Eryri yn eu miloedd, pan nad oedd caniatâd iddynt wneud hynny.
Gwelwyd sawl achlysur yn ystod y pandemig o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn mynegi rhwystredigaeth gyda gwleidyddion Llywodraeth San Steffan. Gwelwyd hefyd godi cwestiynau am berthynas cenedl a chenedl, pobl a phobl. Dyma'r cyfle i holi cwestiynau creiddiol a radical am natur y berthynas honno ac i archwilio a oes gwell ffordd? Noder y ffordd y bu i genhedloedd annibynnol, bach allu gweithredu'n sionc ac yn hyblyg i her y pandemig. Gwlad yr Iâ, Seland Newydd i enw dim ond dwy. Tybed a fydd Llywodraeth Cymru'n barod i ddatgan bod yr esiamplau hyn yn ysbrydoliaeth hefyd?
Dylid adnabod bod pob gwlad o fewn y DU yn unigol a'r anghenion yn unigryw a dylai Llywodraeth y DU hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb fel cyfleodd positif i ddysgu gan eraill a thrwy brofiadau eraill. Gwelir defnydd o iaith reit negyddol ar adegau gan Lywodraeth San Steffan ynglŷn ag amrywiaeth a hil ( yn enwedig o gwmpas mewnfudo).

"Doedd dim angen fy argyhoeddi ond mae'r cyfnod hyn wedi profi yr angen i Gymru ennill ei hannibyniaeth. Nid yw Llywodraeth San Steffan yn rhoi unrhyw ystyriaeth i arwahanrwydd Cymru e.e. mae polisi CaThEM yn cael ei gyflwyno fel dictat i Lywodraeth Cymru (fel pŵer ymerodrol yn cyfathrebu gyda'i "subjects"). Nid yw'n berthynas gyfartal."

"Mae'r feirws wedi amlygu y gwahaniaeth y mae datganoli yn ac wedi ei wneud...mae Lloegr yn deffro i hynny am y tro cyntaf (beio Llywodraeth nid pobl gyffredin ydw i). Dwi heb ddeall pam nad oedd modd cyflwyno gwahaniaethau rhanbarthol h.y. o fewn Cymru o ran polisi. Ar unrhyw adeg arall, mae'n gallu digwydd."

“Mae creu polisi ar lefel Llywodraeth Cymru wedi bod yn dda ac yn gynhwysol mewn amgylchiadau heriol. O na byddai datblygu polisi fel hyn ym mhob agwedd o’n hymwneud gyda LlC!”

**Cysgodi/salwch/profedigaeth**

Wrth i ni baratoi i adnewyddu ac ail-adeiladu yn dilyn cyfnod clo COVID 19, rydym yn ymwybodol fod effaith y firws yn parhau mewn amryfal ffyrdd. Mae cymunedau a theuluoedd drwy Gymru wedi colli anwyliaid, unigolion fu’n cysgodi ac eraill, yn bryderus am ddychwelyd i’w gwaith, gorbryder a chyflyrau iechyd meddwl ar gynnydd, a chyfnodau clo lleol bellach yn realiti. Bydd y cyfnod clo ei hun wedi achosi anawsterau dybryd i nifer a bydd eraill, gan gynnwys plant bach, wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, yn sgil bod adre oherwydd y cyfnod clo.

“Rydw i'n ymwybodol bod y cyfnod dwys hwn efo fo yn amser y byddaf yn ei drysori ond yn ymwybodol hefyd ei bod yn amser anodd eithriadol i nifer o bobl am sawl rheswm, nid llai oherwydd bod nifer o bobl wedi cael profedigaethau yn sgil yr aflwydd”

“Mae Covid-19 wedi effeithio arnom fel rhiant ac Arweinydd Cylch. Rydyn ni wedi bod yn copïo'n iawn trwy'r Lockdown gartref ar ein fferm ac yn hunan ynysu i ffwrdd o'r byd am 10 wythnos“

**Effaith tymor hir ar blant**

Gyda’r ysgolion, Cylchoedd Meithrin a lleoliadau gofal plant eraill yn ail-agor ym Mis Medi, mae llawer o’r gweithlu addysg wedi eu hyfforddi i adnabod arwyddion trawma mewn plant. Mae’r risgiau tymor hir i blant o gael cyfnodau heb addysg ffurfiol yn yr ysgol, yn fwy na’r risgiau yn sgil COVID 19. Croesawn ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ail-agor ein lleoliadau yn ddiogel er ei bod yn anorfod efallai y bydd ambell Gylch Meithrin, neu ddosbarth yn gorfod cau eto oherwydd y Pandemig.

“Mae'n ddifyr iawn os nad yn bryderus bod ymadroddion megis 'pan fydd hyn i gyd drosodd, bydda i yn ....' neu 'dydw i ddim yn cael mynd yn agos atoch chi' neu 'dydw i ddim yn cael mynd i weld x, nac ydw mam?' wedi dod yn bethau y mae o'n eu dweud yn rheolaidd ac heb feddwl eilwaith. Tybed beth fydd effaith isymwybodol hyn ar sut y bydd o'n ymwneud â phobl eraill a'r byd wrth dyfu? Mae'n drawiadol wrth gwrs ein bod i gyd yn dal i fod yn gyfarwydd â'r rhigwm Saesneg 'Ring a ring o roses', tybed a fydd rhywbeth cyfatebol yn aros ar dafod leferydd neu yn seici y genhedlaeth hon o blant yn sgil hyn? “

**“**Rydw i'n poeni ei bod hi'n waeth arno fo fel unig blentyn ond o ddweud hynny mae'n cael llawer o sylw ei rieni a dydyn ni ddim yn gorfod datrys ffraeo rhyngddo a phlant eraill! A bod yn onest dwi'n meddwl y bydd o'n ei chael hi'n anodd mynd yn ôl i arfer a mynd i'r ysgol ym mis Medi.”

**Her Economaidd**

Mae'r cyfnod clo a'i effaith andwyol ar y farchnad gofal plant yn destun pryder mawr i Mudiad Meithrin. Nid oes amheuaeth fod y cynllun "furlough" wedi achub sawl Cylch Meithrin a fyddai fel arall mewn amgylchiadau ariannol bregus tu hwnt. Bu Mudiad Meithrin yn rhagweithiol wrth arwain a chynnal ein haelodau drwy'r broses "furlough", ac wrth eu hysbysu a'u cynghori ynghylch grantiau amrywiol eraill. Gresyn nad oedd yr amodau ymgeisio am rhai o'r grantiau hyn yn glir bob amser. Rydym yn croesawu adferiad y grant 30 awr o fis Medi 2020.

Dylid adnabod cyfraniad y sector Gofal plant a Chwarae i'r economi sylfaenol a rhoi'r un gydnabyddiaeth ac ystyriaeth i'r sector ag sydd i ysgolion, maes addysg a busnesau eraill. Rydym yn galw felly am fuddsoddiad enfawr mewn cyfleoedd gwaith megis cynlluniau cyfalaf sylweddol ac mewn sectorau fel y sector gofal plant allasai - o gael y mewnbwn ariannol cywir - ddarparu mwy o swyddi o safon a chyfleoedd hyfforddiant priodol.
Gwelsom bwysigrwydd gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod clo ac mae darpariaeth gofal plant (mewn un gyfundrefn unedig) i lwyddiant yr economi sylfaen yn allweddol. Mae cydnabyddiaeth a chyflog hefyd y allweddol i hyn.

"Mae'n Cylch Meithrin ni yn meddu ar statws SCE (CIO) a gyda cryn dipyn o arian wrth gefn (gwerth tua hanner blwyddyn o gostau rhedeg). Mae'r cyfnod clo wedi amlygu ein cryfder yn sgil hyn (er yn amlwg mae'r cynllun saib wedi bod yn achubiaeth ac wedi golygu nad oes rhaid defnyddio llawer o'r arian wrth gefn)"

Gobeithio bod y dystiolaeth uchod o ddiddordeb ac o ddefnydd i chi fel pwyllgor. Byddem yn hapus i ddarparu mwy o wybodaeth neu fanylion os oes angen.

Debra Eckley

Rheolwr Polisi

Mudiad Meithrin